# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

***(SIAMBR Y CYNGOR - CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT)***

| | |
|---|---|
| **Aelodau sy'n bresennol:** | **Dydd Iau, 12 Medi 2019** |
| **Cadeirydd :** | **Cynghorwyr J.D.Morgan** |
| **Is-gadwirydd:** | **Cynghorwyr A.R.Aubrey** |
| **Cynghorwyr**: | S. ap Dafydd, M.Harvey, J.Hurley, S.Pursey, S.Renkes, A.J.Taylor, A.Llewelyn a/ac S.K.Hunt |
| **Swyddogion yn bresennol:** | K.Jones, C.Furlow, S.Curran a/ac A.Manchipp |

---

## 1. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir.

Nododd Aelodau, mewn perthynas â Chofnod Rhif 1, fod ymateb wedi'i dderbyn gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ynghylch y ffaith bod lwfansau gofalu Aelodau'n destun treth, a nodwyd bod sawl awdurdod lleol wedi codi'r un mater. Byddai Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn codi'r mater hwn â Chyllid a Thollau ei Mawrhydi.

## 2. CYNYDDU CYFRANOGAETH Y CYHOEDD YN Y BROSES DDEMOCRATAIDD GAN GYNNWYS GWE-DDARLLEDU - CYNLLUN PROSIECT DRAFFT

Yn unol â Chofnod Rhif 3 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf, derbyniodd yr Aelodau gynllun prosiect drafft mewn perthynas â chynyddu cyfranogaeth y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd gan gynnwys gwe-ddarlledu.

Trafododd Aelodau'r cynllun prosiect drafft gan gytuno yn ogystal â'r hyn a gynigiwyd yn y cynllun, fod angen i'r cyfarfod cyntaf hefyd ystyried

- yr hyn yr oedd yr awdurdod eisoes yn ei wneud o ran cyfranogiad cyhoeddus

- faint o awdurdodau lleol sy'n gwe-ddarlledu ar hyn o bryd, a faint o'r cyhoedd sy'n manteisio ar y gwasanaeth hwn?

Nododd Aelodau fod Cyd-bwyllgor Craffu'r Fargen Ddinesig wedi cytuno i we-ddarlledu ac y byddai hyn yn rhoi profiad i swyddogion ac aelodau perthnasol o ffyrdd gwahanol o ddarparu'r gwasanaeth.

Gofynnodd Aelodau am esboniad o Effeithiau Cymunedau'r Cymoedd, fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad a gylchredwyd, a dywedwyd wrthynt y rhagwelir y bydd angen i'r gwaith hwn ystyried effaith cynigion ar gymunedau'r cymoedd. Er enghraifft, gallai cynhwysiad digidol fod yn broblem mewn rhai ardaloedd.

**PENDERFYNWYD:** 1. Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i ymgymryd â'r gwaith a amlinellwyd yn yr adroddiad er mwyn paratoi cyngor i'w roi i'r Cyngor erbyn 31 Mawrth 2020;

2. Y byddai holl aelodau Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn cael eu cadarnhau'n aelodau o'r Grŵp Tasg a Gorffen, oni bai fod aelodau'n dweud wrth swyddogion nad oeddent am fod yn rhan ohono; ac

3. Y byddai'r cynllun prosiect arfaethedig a gynigir yn yr adroddiad a gylchredwyd yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar ychwanegu'r canlynol:

   - yr hyn yr oedd yr awdurdod eisoes yn ei wneud o ran cyfranogiad cyhoeddus
   - faint o awdurdodau lleol sy'n gwe-ddarlledu ar hyn o bryd a nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn?

## 3. <u>ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</u>

Derbyniodd a nododd y pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol Drafft ar gyfer 2018/19.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r adroddiad, yn amodol ar ychwanegu adran am y gwaith a gynhwysir yn y blaenraglen waith o fis Mai 2019.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH 2018-19

Derbyniodd a noddodd y pwyllgor y blaenraglen waith ar gyfer 2019/20. Gofynnodd Aelodau a fyddai problem o ran y gallu i gyflawni'r holl waith a gynhwysir yn y ddogfen gynllunio, a dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y gellid gwneud hyn. Pe bai eitemau eraill yn cael eu hychwanegu, byddai angen asesu a oes digon o allu i gyflawni'r gwaith ychwanegol.

Wrth drafod, nodwyd bod y Gwasanaethau Democrataidd yn cynnal arolwg blynyddol ar gyfer aelodau etholedig. Cytunodd Aelodau i gyfrannu cwestiynau at arolwg eleni a fydd maes o law yn llywio'r blaenraglen waith.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r blaenraglen waith yn amodol ar ychwanegu y bydd arolwg drafft yr aelodau yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

**Cadeirydd**